



Ein cyf/Our ref WQ82862

Rhys ab Owen Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

Rhys.abOwen@senedd.cymru

26 Awst 2021

Annwyl Rhys,

Diolch am eich cwestiwn o ran cwmpo coedwigoedd pren caled aeddfed wrth gynhyrchu pelenni coed i gyflenwi gorsafoedd pŵer biomas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gryfhau'r gwaith o ddiogelu coetiroedd hynafol yn ogystal ag ehangu'r broses o greu coetiroedd.

Yn unol â hyn, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cwmpo coedwigoedd pren caled aeddfed, ac eithrio i reoli clefyd marwol (fel clefyd Chalara ar goed ynn). Rheolir coedwigoedd pren caled ar raglenni teneuo hirdymor i gefnogi cynlluniau adfywio, ymgorffori cyfundrefnau diogelwch ar gyfer mynediad i'r cyhoedd ac yn unol ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Nid yw CNC yn cyflenwi unrhyw ddeunydd pren caled na deunydd pren meddal yn uniongyrchol i orsafoedd pŵer biomas.

Mae meini prawf cynaliadwyedd gorfodol ar gyfer biomas solet a nwyol a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu gwres a phŵer a gefnogir gan y llywodraeth yn y DU. Fodd bynnag, mae angen ystyried yn ofalus a oes gan fomas rôl hirdymor mewn system ynni cynaliadwy fel ein bod, lle bo'n bosibl, yn osgoi llygredd a chanlyniadau anfwriadol eraill. Yng Nghymru, ein bwriad yw defnyddio pren ar gyfer cynhyrchion ac at ddibenion sy'n gwneud y mwyaf o'i fywyd defnyddiol ac sydd â'r potensial i ddisodli deunyddiau carbon uwch eraill: er enghraifft defnyddio pren wrth adeiladu a defnyddio pren ar gyfer cynhyrchion fel inswleiddio. Yn unol â'n huchelgeisiau economi gylchol, mae angen inni hefyd leihau gwastraff.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn datblygu ein safbwynt o ran rôl biomas gan gydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU. Mae angen inni ystyried a yw unrhyw feini prawf cynaliadwyedd a gynigir yn y dyfodol yn ddigon cadarn i fodloni ein rhwymedigaethau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fod yn genedl sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The script is cursive and fluid, with the first letters of "Julie" and "James" being capitalized and prominent.

Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change